Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pencae

Ffordd Graiglwyd
Penmaenmawr
Conwy
LL34 6YG

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pencae

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Pencae |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Eglwys |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 155 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 108 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 19 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 33.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/01/2026 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 23/04/2018 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 19/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Pencae yn gymuned gynhwysol a threfnus sy’n cefnogi disgyblion i ffynnu mewn awyrgylch weithgar a hapus. Mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol i gefnogi dysgu a chynnal lles y disgyblion yn eu gofal.

Mae’r disgyblion yn canolbwyntio’n dda ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cefnogaeth effeithiol gan staff ymroddgar. Er yr ystod addas o weithdrefnau i’w hyrwyddo, mae presenoldeb grwpiau o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol yn caniatáu iddynt ddatblygu hyder ac annibyniaeth o oedran cynnar. Maent yn gwneud dewisiadau ystyrlon ynglŷn a’u gweithgareddau, sy’n hybu eu hyder yn llwyddiannus. Mae eu dealltwriaeth o’r Gymraeg yn datblygu’n dda er bod tueddiad iddynt ymateb yn eu iaith gyntaf ar adegau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu hyder cynyddol yn eu Cymraeg ac yn siarad yn rhwydd a naturiol. Mae staff yn hybu diwylliant cryf o ddarllen, ac maent yn darparu profiadau gwerthfawr i’r disgyblion sy’n hyrwyddo eu mwynhad o ddarllen ar draws ystod o ffurfiau. Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol, ac maent yn ymateb yn fuddiol i adborth wrth wella eu gwaith. Mae medrau mathemateg a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Maent yn eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau byd go iawn ac yn elwa ar brofiadau dysgu diddorol. Mae’r rhan fwyaf yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel ar y we.

Mae’r athrawon yn darparu amrediad cyfoethog o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy’n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn darparu adborth defnyddiol sy’n annog disgyblion i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Er hyn, gydag ychydig o weithgareddau, mae tueddiad i or-ddefnyddio fframweithiau parod sy’n llesteirio datblygiad medrau annibynnol disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni a rhannu arferion cryfaf yr addysgu ar draws yr ysgol

A2 Gwella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Pencae yn gymuned hapus a chynhwysol. Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol gydag angerdd a'r nod o sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn llwyddo. Mae'n cael ei gefnogi gan dîm o staff medrus sy'n cydweithio'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae'r disgyblion sy'n mynychu'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu disgyblion yn amlwg yn yr ysgol. Mae staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau i gadw disgyblion yn ddiogel ac yn gweithredu'n briodol pan fydd unrhyw achos o bryder am blentyn. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda ymhob agwedd o waith yr ysgol, ac maent yn barchus at ymwelwyr a'i gilydd.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau priodol i hybu presenoldeb disgyblion. Maent yn sicrhau bod pwysigrwydd presenoldeb uchel yn cael ei rannu gyda rhieni yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos â nifer o asiantaethau allanol i wella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

Enghraifft nodedig o waith yr ysgol yw'r modd y mae staff yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu medrau dysgu annibynnol cadarn. Trwy gynllunio bwriadus, mae'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau gan adeiladu hyder i wneud dewisiadau. Mae hyn yn hyrwyddo eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae rôl y llywodraethwyr fel ffrind beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn cymryd rhan rheolaidd mewn gweithgareddau hunanwerthuso gydag arweinwyr. Mae hyn yn cefnogi eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddir canfyddiadau'r gweithgareddau hyn er mwyn pennu blaenoriaethau gwella synhwyrol. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn bwrpasol. Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i staff fel rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion eraill.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn newydd i'r Gymraeg wrth gychwyn yn yr ysgol, mae eu dealltwriaeth o'r iaith yn datblygu'n gyflym. Er hyn, wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae tueddiad i leiafrif ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau yn y Saesneg, er eu bod wedi deall yn briodol. Erbyn brig yr ysgol, mae medrau llafar Cymraeg disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau darllen cynnar wrth adnabod llythrennau a'u cysylltu â'r sain berthnasol. Dros amser, maent yn

datblygu hyder cynyddol ac yn darllen geiriau a brawddegau syml. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae'r staff yn hyrwyddo a chynnal diwylliant cryf o fwynhau llyfrau o bob math.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o gyfryngau defnyddiol i archwilio a gwneud marciau, sy'n cefnogi datblygiad eu medrau modur mân a chyd-symud. Maent yn adeiladu ar y medrau cynnar hyn ac, erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed ac mae eu sillafu ac atalnodi yn datblygu'n briodol. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn dda yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu rheolau pwrpasol am sut i fod yn ddinasyddion digidol cyfrifol.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu pwrpasol yn yr ardaloedd dysgu sy'n cefnogi'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu medrau mathemateg a rhifedd cynnar yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn cymhwyso'u medrau'n hyderus ac yn adnabod priodweddau siapau dau a thri dimensiwn. Mae'r disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau trin data yn hyderus, er enghraifft wrth lunio graff i ddangos y tymheredd cymedrig dros amser. Gwneir defnydd buddiol o'r ardal leol i gefnogi'r dysgu, er enghraifft wrth gynnal archwiliad i brysurdeb traffig ar wahanol adegau o'r dydd ym Mhenmaenmawr.

Mae ymdeimlad cadarn o hunaniaeth Gymreig yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm sy'n treiddio'n fedrus drwy bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. Cefnogir hyn gan ystod fuddiol o ymweliadau fel taith i Gonwy ar y trên a thaith bws deulawr o gwmpas Llandudno.

Ar draws yr ysgol, mae ystod fuddiol o brofiadau yn hybu medrau digidol disgyblion yn dda. Yn nosbarthiadau'r dysgu sylfaen, mae'r disgyblion yn caffael medrau codio defnyddiol wrth raglenni ystod o offer fel y robot rhaglenadwy. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trin amrywiaeth o offer digidol yn aeddfed. Maent yn creu cyflwyniadau cynhwysfawr ac yn dethol elfennau sydd fwyaf addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar lein.

Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu creadigrwydd fel defnyddio ystod o offer i gyfansoddi cerddoriaeth. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion y dosbarthiadau dysgu sylfaen  ddatblygu eu hyder wrth iddynt wneud penderfyniadau am sut yr hoffent gyflawni tasg. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn dyfalbarhau'n dda wrth fynd ati i arbrofi â gwahanol offer i greu cerdyn Santes Dwynwen, cyn ysgrifennu cyfarchiad yn annibynnol

Mae'r athrawon yn addasu eu dulliau addysgu’n bwrpasol er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn briodol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu. Er hyn, gyda’r disgyblion hŷn, ar adegau mae tueddiad i or-ddefnyddio fframweithiau parod sy’n cyfyngu ar gyfleoedd i disgyblion ddatblygu eu medrau’n llawn. Mae staff yn holi disgyblion yn effeithiol ac yn darparu adborth llafar buddiol yn ystod gweithgareddau. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn deall a gwerthfawrogi pwysigrwydd adborth staff a chymheiriaid wrth iddynt ddatblygu eu gwaith. Mae hyn yn hyrwyddo cynnydd  disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cryf wrth ddysgu am gredoau ysbrydol a moesol. Mae disgyblion yn dysgu am werthoedd pwysig, gan gynnwys cydraddoldeb, hawliau, tegwch, a pharch. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd trin pawb yn y gymdeithas gyda pharch.

Mae staff yn ymdrin ag anghenion unigol disgyblion yn hynod effeithiol a sensitif. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu gofal, lles a darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer y disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a’u parodrwydd i ddysgu. Mae’r disgyblion, o ganlyniad, yn teimlo’n ddiogel ac yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae’r ddarpariaeth ADY yn cael ei chydlynu’n effeithiol. Mae arweinwyr yn cefnogi athrawon a staff cymorth yn dda ac mae ystod dda o ymyraethau sy’n cefnogi dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026